

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 21/01/20

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr A.Hopcyn, D.Jones, C.Larsen (Cadeirydd), W.T.Owen,
J.W.Parry

1.Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr W.R.Owen, I.C.Thomas, R Thomas, C.Williams

2.Datgan Buddiant Personol

J.W.Parry – eitem 4 – Parc Coed Helen.

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim.

4. Parc Coed Helen

Cyflwynwyd – adroddiad llafar ar y datblygiadau o ran Parc Coed Helen.

Nodwyd bod cyfarfod pellach wedi ei gynnal gyda Cyngor Gwynedd i geisio gael eglurder pellach ar nifer o faterion, fel a ganlyn:

Y trefniadau o ran y tenant presennol

Nodwyd y dylid bod yn hyblyg o ran y trefniadau glanhau toiledau.

Roedd anghytundeb yn y cyfarfod o ran os oedd penderfyniad wedi ei wneud o ran dyfodol y denantiaeth, a'r sefyllfa os ddylai deilydd y denantiaeth wneud y gwaith glanhau ac yn y blaen.

Gadawodd y Cyngorydd W.T.Owen y cyfarfod am 6.20 p.m.

Y trosglwyddiad / PenTermau (Eiddo)

Bydd y Pen Termau yn cael eu defnyddio gan Eiddo a Cyfreithiol i greu dogfen ffurfiol.

Yr Offer Chwarae

Nodwyd y byddai'r offer chwarae trosglwyddo i'r Cyngor Tref. Byddai Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am yr offer am dair mlynedd o'r dyddiad trosglwyddo.

Byddai angen i un o staff y Cyngor Tref fynd ar gwrs ROSPA er mwyn gallu gwneud archwiliadau o'r offer.

Y Cyflenwyr Cynnal Tiroedd

Ar hyn o bryd roedd y tir yn cael ei gynnal gan Amgylchedd Gwynedd. Ar ôl y trosglwyddo gall y Cyngor Tref barhau efo'r drefn yma neu cael darparwyr eraill.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ail-ymweld â'r cwots oedd wedi, neu heb, eu derbyn.

Yswiriant

Bydd yr Yswiriant yn cael ei drosglwyddo o Gyngor Gwynedd i'r Cyngor Tref o'r diwrnod bydd y safle'n cael ei gymryd drosodd, a bod Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd yn holi o ran y trefniadau.

Cyflenwadau Ynni

Bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei drefnu gan yr Adran Eiddo cyn y dyddiad trosglwyddo.

Costau parcio ynghyd ag os oedd yn werth rhoi llinellau melyn dwbl yno

Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi cynnig talu am osod dau beiriant talu ac arddangos.

Archwiliadau Coed

Bydd y Cyngor Tref yn mynnu fod Cyngor Gwynedd yn cynnal archwiliadau coed manwl oherwydd y costau mawr allasai godi.

Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi holi'r Eiddo am y TPOs , y coed a'r aceri.

Costau eraill e.e. trwsio'r lôn, / goleuadau

Mae'r Adran Economi a Chymuned am holi os yw'r goleuadau yn dod ymlaen trwy'r nos.

Llain y Clwb Criced

Nodwyd fod angen 24 toriad y flwyddyn, a bod y clwb yn cyflogi cwmni allanol i wneud toriad pellach. Roedd gan y clwb beiriant torri gwait ac roeddynt yn fodlon gwneud toriadau ychwanegol eu hunain.

Penderfynwyd yn ogystal (unfrydol):

- (1) Gan fod llawer o faterion i'w sortio, argymell nad yw'r Cyngor Tref yn cymryd Parc Coed Helen drosodd ar y 1af o Ebrill, 2020, ond yn hytrach ddim hwyrach na'r 1af o Orffennaf, 2020.
- (2) Gofyn i'r Clerc holi'r Adran Economi a Chymuned o ran beth oedd cyflwr y maes parcio, oes llinellau gwyn yno, a beth oedd cyflwr y parc sglefrio (skate park).
- (3) Trefnu ymweliad safle i'r Pwyllgor Gwaith i Parc Coed Helen.
- (4) Bod angen edrych eto ar y Cytundeb Tenantiaeth / Rhent.

5. Graffiti

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Clerc ar graffiti yn y dref, oedd yn nodi ei fod wedi gofyn am bris gan gwmni i lanhau graffiti yn y dref, gan roi blaenoriaeth i lochesi bysus. Nid oedd y cwmni wedi cysylltu yn ôl efo pris.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol) ac argymell y gellid gwario rhywfaint o incwm ychwanegol y Cyngor ar bethau fel prosiectau efo pobl ifanc i greu graffiti eu hunain yn y dref.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.50 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____